


Canllawiau ar gyfer Templed Cyflwyno Data Monitro Oedi Wrth Ryddhau Cleifion

Mae'n rhaid i Fyrddau lechyd gyflwyno ffurflen wedi'i chwblhau erbyn **hanner dydd bob dydd Mercher**. Bydd rhaid gwneud y canlynol:

- Wrth agor y templed, gwnewch yn siŵr eich bod yn galluogi'r macros drwy glicio ar "Enable Content", fel yn y sgrinlun isod:



- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis eich Bwrdd Iechyd o'r ddewislen ar ben y daflen waith.
- Os yw'r templed eisoes yn cynnwys data, cliciwch ar y botwm 'Clear Data' i ddileu unrhyw ddata a sylwadau blaenorol.
- Rhowch y dyddiad cyntaf yn y gell wag lliw melyn
- Mae'n rhaid i'r dyddiad hwn fod yn ddydd Mercher. Ni chaniateir unrhyw ddyddiad nad yw'n ddydd Mercher.
- Nodwch y data sy'n ymwneud â'r gwahanol fetrigau sy'n cael eu casglu
- Dylai un cyflwyniad data llawn gynnwys y cyfnod o saith diwrnod hyd at ac yn cynnwys y dydd Mawrth cyn y bydd yn cael ei gyflwyno ar y dydd Mercher.
- Dylech gynnwys unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych.
- Nodwch mai dim ond ar ddydd Mawrth a dydd Gwener y bydd rhaid casglu rhai metrigau. Dylai'r rhain adlewyrchu'r sefyllfa ar y diwrnod hwnnw.
- Arbedwch y templed cyn ei anfon at DU.Inbox@wales.nhs.uk

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â defnyddio'r templed hwn, anfonwch nhw at DU.Inbox@wales.nhs.uk a bydd aelod o'r tîm yn eu hateb. Dylid anfon cwestiynau ynglŷn â dehongli'r templed hwn at Lynda.Chandler@wales.nhs.uk